COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 4ydd o RAGFYR 2017 YN SWYDDFA'R CYNGOR,NEUADD PONTIETS AM 7.00.
Presennol: Ian Evans (yn y gadair),Alan Lewis,Meic Bowen,Linda Williams,Tracey James,Margaret Rees,Heddwyn Jones,Geraint Rosser,Geoff Hewitt,Carol Williams a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Aled Williams a Tyssul Evans

Materion Personol

1848 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd yn enwedig y Cynghorydd Carol Williams a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf ar ôl cael ei chyfethol dros Ward Llangyndeyrn i olynu'r diweddar Gynghorydd Richard Thomas. Cyfeiriwyd at y ffaith bod y Cynghorydd Aled Williams yn Ysbyty Treforys a dymunwyd yn adferiad llwyr a buan iddo.
Hefyd darllenwyd llythyr o ddiolch oddiwrth Mrs Delyth Thomas, gweddw'r diweddar Gynghorydd Richard Thomas yn diolch am y rhodd hael er coffa amdano.

1849 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 06/11/2017 fel rhai cywir.

1850 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 1826 - Rheilffordd Pontiets - Mynegwyd pryder nad oedd unrhyw ddatblygiadau ar y safle. Cytunwyd i gysylltu unwaith eto a Stuart Thomas ac os oes rhaid gyda Network Rail hefyd. Os na fydd datblygiadau o fewn yr wythnosau nesaf byddwn yn codi'r mater gyda'n Haelod Seneddol.

Tud 3. Cofnod Rhif 1847 - Traffig yn Ffoslas. Cytunwyd i gysylltu eto gyda Mr John McAvoy er mwyn symud pethau ymlaen.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1851 Cancer Information and Support Services - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1852 Carmarthen and District Youth Opera – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1853 Marie Curie – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1854 Cyngor Sir Gar - Pwyllgor Safonau - Lythyr yn cadarnhau enwebiad y Cynghorydd Philip Rogers, San Clêr.

1855 Llanelli Deaf Club – Gwahoddiad i Wasanaeth Nadolig – Nodwyd y Llythyr.

1856 Cyngor Sir Gar – Ymgynghoriad Gyllideb 2018-2021 – Nodwyd y Llythyr.

1857 Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys – Ymgynghoriad Praesept yr Heddlu 2018/2019. – Nodwyd y Llythyr.

Ceisiadau Cynllunio

1858 Doedd dim Ceisiadau Cynllunio i'w drafod y mis yma.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1859 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Tachwedd 2017.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1860 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

a) Cyflog y Clerc - £402.71 (Mis Tachwedd)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Tachwedd)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Tachwedd)
ch) HMRC (Treth)- £80.40 (Mis Tachwedd)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Tachwedd)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Tachwedd)
e) Inc i'r Llungopïwr - £38.14
f) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Tachwedd)- £182.00
ff) British Legion – Torch Pabi - £15.00
g) Marcus Dininno – Torri Gwair Parc Carwe - £30.00
Ng) Society of Local Council Clerks - £100.00
h) Association of Local Council Clerks - £30.00

Cynghorwr Geraint Rosser yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod

Clwb Rygbi Pontiets

1861 Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc bod y Clwb Rygbi yn awyddus i newid i Gwmni Cyfyngedig a bod angen caniatâd y Cyngor i newid prydles y Caeau Chwarae. Cytunwyd ar y cais ar yr amod bod y Clwb Rygbi yn talu'r costau cyfreithiol.

Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Materion Cynghorwyr

1862 Geraint - Mynegwyd pryder ynglŷn â dirywiad yr Iaith Cymraeg yn ardal Llanelli.

1863 Margaret - Mainc wrth loches Bys Pontantwn mewn cyflwr gwael. Trefnir i'w atgyweirio.

Cyfarfod nesaf:- 8fed o Ionawr 2018 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……